

Ar Drywydd Dau Heboglys

(Parhad o dudalen 13)

Yn ôl ei ddyddiadur, bu Samuel Brewer yntau yn chwilota'r mynydd-dir o amgylch Llyn y Cŵn yn ystod y 4 a'r 5 o Orffennaf, 1727, er mwyn darganfod y Cnwfwsgl Meinfannau (*Lycopodium annotinum*), ac er na fu'n llwyddiannus mae'n cofnodi gweld dail yr Heboglys Hardd. Roedd yn amlwg fod Brewer, fel minnau dros ddau gan mlynedd wedyn, yn ei chael hi'n anodd i weld y blodyn yn ei lawn ogoniant.

Mae'r Heboglys Hardd, sy'n flodyn 'Alpaidd' go iawn, yn dra anghyffredin ym Mhrydain, ac ond i'w gael yn weddol niferus yn Ucheldir Yr Alban, ond yn brinnach yn Ne Yr Alban ac yn Ardal y Llwynoedd, Lloegr. Er ei fod wedi lleihau ychydig mewn niferoedd dros y blyneddau mae'n dal ei dir yn gymunedol mewn ambell safle yn Eryri. Cofnodwyd ef gan J.E. Griffith (1894/5 t. 85) o bum safle ym mynyddoedd Eryri, Tryfan, Cwm Idwal, Carnedd Dafydd, Glyder Fawr a Charnedd Llewelyn, ac heb ddatgelu'r ffynhonnell, mae'n enwi Syr Joseph Banks fel y cofnodydd cynharaf ohono yn 1773. Daeth Banks i Gymru yn 1773, yng nghwmni'r Parch John Lightfoot, a chan na chyhoeddwyd ysgrif y Parch. H.J. Riddelsdell ar daith Lightfoot i Gymru gyda Banks yn 1773 tan 1905 yn y *Journal of Botany*, efallai iddo gael y wybodaeth o adysgrif Daniel Carl Solander o'r daith honno sydd ar gadw yn yr Amgueddfa Brydeinig. Mae'n debyg mai'r Heboglys Hardd yw'r 'Hieracium alpinum' a gofnodwyd tra'n crwydro pen y Glyder ar 4 Awst, 1773.

Penwythnos gyntaf y cyfnod crasboeth adeg Eisteddfod Meifod oedd hi a minnau'n bustachu i fyny'r llethr serth dan Glogwyn y Geifr, uwchlaw Cwm Idwal, yng nghwmni cyfaiil i mi a oedd, oherwydd rhinwedd ei swydd a'i diddordeb personol, yn gyfarwydd â safle newydd Heboglys Eryri. Nid oedd yn ei flodau y diwrnod hwnnw, ond roedd cael golwg ar ffurf y dail a'r safle lle tyfai yn fy modloni. Dringais yn uwch wedyn nes cyrraedd erchwyn Clogwyn y Geifr, a brasgamu draw at y creigiau yng nghyffiniau Llyn y Cŵn, ac yno bodlonwyd fi ganwaith mwy. Yma ac acw gwelais yr Heboglys Hardd, a dyna ydoedd, a'i flodau melyn euraidd yn cyhwan i'r awel ysgafn, a dyma barhad o'r cofnodi ar ddau o blanhigion prin Eryri ar ddechrau milflwydd newydd.

Llyfr Newydd

Achau rhai o deuluoedd hen siroedd Caernarfon, Meirionnydd a Threfaldwyn, T. Ceiri Griffith

Dilyniant i'r gyfrol *Achau ac Ewyllysiau Teuluoedd De Sir Gaernarfon*, gan yr un awdur, yw hwn.

Mae'n cynnwys dros 250 tudalen A4 o achrestrau, rhai ohonynt yn changu'r tablau a gyflwynwyd yn y gyfrol gyntaf. Ceir hefyd fynegai hir o enwau cartrefi sydd yn ymddangos yn y gwaith ac fe restrir hefyd yr ewyllysiau a ddefnyddiwyd.

Y gobaith yw y gwelir cyhoeddi'r gyfrol cyn y Nadolig am bris o tua £25 ac fe fydd taflen gyda mwy o fanylion ar gael gan yr awdur o Gaerddu Fawr, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SY.



Ras Droï yn Llanuwchllyn tua 1920au (Twm ar y blaen).

Yn canu clodydd Twm y Ceffyl Gwedd

(Parhad o dudalen 8)

Edwards, meistres y tŷ, a'i ffedog fras dros ei phen.

Darllen y Beibl, Gair Duw o'i gychwyn i'w ben, yn ôl treigl amser, oedd bwriad y fath gyd-gyfarfod teuluaid.

Ffeithiol farw braidd i mi oedd y darlleniadau o ail lyfr y Brenhinoedd. Yr oedd Nebuchodonosor yn fy mhendroni wrth wneud i Israel bechu. Ond hyd heddiw, ar draws degau o flynyddoedd, erys yn holl-fyw awryglch ddwyfol yr achlysur o dorri bara y bywyd yn hen gegin Tŷ Mawr. Yr un awryglch yn burion a enynnodd ynof droeon mewn addoldy yma a thraw ac hefyd wrth wely angau ambell sant, na wŷr y byd amdano.

Humphreys' English-Welsh Letter-writer

(Parhad o dudalen 7)

Morwr yn ysgrifennu o Newcastle yw James Hughes, sy'n datgan,

...y mae arnaf hiraeth yn fy nghalon am danoch, fy ngeneth anwyl, a phan ddeuaf adref nesaf rhaid i chwi addaw fy mhriodi. Yr ydwyf wedi prynu 'bowl' siwgr a 'creamjug' hardd iawn i chwi, ond ni chewch chwi mo honnynt os na wneuch chi addaw hyny i mi...

* * *

Yr adran nesaf yw llythyrau masnachol, e.e. llythyr at y meistir tir yn gofyn am ychwaneg o amser i dalu'r rhent (Ardreth yw'r gair yma); masnachwr at gwsmer 'yn erfyn taliad'; cais am fenthyg arian; llythyr cymeradwyaeth i was. Llythyrau ffurfiol, gyda'r cyfarchiad 'Syr' yw y rhain ac ni ymddangosant mor ddieithr i ni heddiw. Yr eithriad yw llythyr morwyn, a adawyd i ofalu am y cartref yn absenoldeb ei mesitres, mae'n gofyn am arian am nad oedd dim ar ôl y gallai hi werthu,

Anwyl Feistres

...y mae'r gwair wedi ei gael ers mis, y mae'r afalau yn cael llonnyd yn yr ardd, y mae y tatws oedd yn yr ardd bron wedi darfog, nid oes yno ddim ychwaneg o bys na ffa...

Yr eiddoch yn ufudd Jane Williams

Mae tudalennau olaf y llyfryn yn llawn gwybodaeth fuddiol, ac fel y sylweddolai Hugh Humphreys, yr oedd angen cyfarwyddyd ar bobl er mwyn llunio llythyr. Pethau gweddol ffurfiol oedd llythyrau, hyd yn oed y rhai personol. Er mai ffuglen yw llythyrau Anna Beynon (Gomer 1974) cawsant eu cyhoeddi gyntaf fel llythyrau go iawn. 1719-20 yw'r dyddiad ac ysgrifennai Anna at ei chwaer a ymfudodd i America,

Anwyl chwaer,

Dyma fi am y tro cyntaf yn treio fy llaw ar ysgrifan atoch...

ac yn gorffen

Eich cariadus chwaer Anna Beynon.

Sylwch mai chi yw'r cyfarchiad. Yr oedd hi'n arferiad arwyddo llythyr gyda'r enw llawn, hyd yn oed gan blant at eu rhieni. Os am weld sut yr ysgrifennai Cymry cyffredin heb gael dim hyfforddiant mewn ysgrifennu Cymraeg, rhaid dibynnu ar lythyrau mewn llawysgrif. Dyma ddarn o llythyr oddi wrth Elen Richards o Langynyw, sir Drefaldwyn at ei modryb Mair. Rhoddwyd y dyddiad yn Saesneg gan rywun arall, Rhagfyr 1835,

Bodo Mair

...i mae yma dair o golomenod a all Ann Wittington yry clomen wriw yma efo lyse. Cofiwch fi at Ann Witin... Jane Lawis a pharab daw Bodo Sian yna yr plygain Byddwch yn siwr o ddweid wrth Anne Witin am y glomen wryw.

Mi ces i destament bach gan Ewrt R... a ffensel a righting pen arian rhaid gorphen gerewch lythyr yn ol. Elen Richards

Ysgrifenna'n dafodieithol a'r sillafu'n amrywio o linell i linell. Geneth tua un ar ddeg ydoedd.

A dyma llythyr oddi wrth Elizabeth Edwards a oedd yn gweini yn Llundain, at ferch ficer Darowen, sir Drefaldwyn ym mis Awst 1827. Mae'n ei chyfarch

Fy hen gyfeilles Mair,

sydd yn syndod o gofio am safle cymdeithasol merch Ficerdy yn yr oes honno,

...mi fum yn hir iawn heb ddanfôn atoch, yr achos oedd fy mod wedi bod mor anseledig yn fy llefudd... Mai yma beder morwyn a dai was... mi rhydwi yn nabod cyfnither i Davies Llanidloes lodes ffeind iawn... Mi aeth Mary a minne yno i edrych am y footman, pen wibi hi yn bod ni yn dward o Gymru mi roedd yn barod i'n bita ni...